



# Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuencid yng Nghymru

Mae atal plant rhag mynd i'r system cyfiawnder troseddol, gan leihau eu cyswllt â'r system a chreu cymaint o gyfleoedd â phosibl ar gyfer dargyfeirio, yn hollbwysig i'w cynorthwyo i fyw bywydau di-drosedd. Nod statudol y system cyfiawnder ieuencid yw atal troseddau gan blant. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn nodi gofynion ar gyfer sicrhau bod gwasanaethau lleol yn cael eu darparu i atal plant rhag troseddu ac i hybu eu llesiant yn y dyfodol. Gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod gael effaith sylweddol ar les meddyliol trwy gydol eu bywydau, a all arwain at ganlyniadau negyddol, fel cyflawni trosedd. Mae'r rheiny sydd wedi dioddef o leiaf bedwar profiad niweidiol yn ystod plentyndod 15 gwaith yn fwy tebygol o fod yn dreisgar ac 20 gwaith yn

fwy tebygol o gael eu carcharu. Felly, mae polisïau'n canolbwyntio ar atal a lleihau effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, atal problemau rhyng-ghenedlaeth a datblygu gwydnwch i wella eu cyfleoedd ym mywyd. Hefyd, mae'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuencid yn cydnabod yr ymrwymiad i gyflenwi hawliau plant yng Nghymru. Mae'r dull system gyfan a ddisgrifir isod yn ystyried erthyglau perthnasol Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ddylunio gwasanaethau cyfiawnder ieuencid ar gyfer Cymru. Mae'n gosod uchelgais ar gyfer system ar sail hawliau ac wedi'i llywio gan drawma a fydd yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflenwi canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant yng Nghymru.

Ein dyheadau yw:	Bydd y Dull System Gyfan yn canolbwyntio ar:	Ein hegwyddorion arweiniol
<p>Datblygu system cyfiawnder ieuencid sy'n trin plant â thegwch a pharch, ac sy'n eu helpu i feithrin eu cryfderau ac i wneud newidiadau a dewisiadau cadarnhaol yn eu bywydau.</p> <p>Cefnogi plant i fyw bywydau cadarnhaol, iach a di-drosedd, gan wella llesiant a gwneud cymunedau'n fwy diogel.</p> <p>Gostwng nifer y plant sydd yn y system cyfiawnder ieuencid trwy ddargyfeirio'n effeithiol ac atal troseddu trwy fynd i'r afael â'r bregusrwydd sy'n arwain at droseddu yn aml.</p> <p>Gostwng lefelau aildroseddu a chreu amgylcheddau diogel lle caiff plant eu diogelu rhag niwed a'u cefnogi i ffynnu</p> <p>Cyflenwi dull dewr, uchelgeisiol, gyda gwasanaethau trawsnewidiol, cynaliadwy sy'n darparu parhad gofal trwy gydol y system.</p> <p>Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i gryfhau'r dull partneriaeth integredig o gyflenwi gwasanaethau cyfiawnder ieuencid sy'n blaenoriaethu'r 'plentyn yn gyntaf' ac sy'n gwella canlyniadau ar gyfer plant.</p>	<p><b>Atal:</b> Dylid parhau i flaenoriaethu gweithgarwch atal wedi'i dargedu yng Nghymru trwy gyllid penodedig. Y bwriad yw atal plant nad ydyn nhw wedi troseddu eto rhag mynd i'r system cyfiawnder troseddol. Byddwn yn archwilio'r opsiynau ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Alinio gwasanaethau ataliol a gynigir i blant (gan gynnwys y rheini sy'n ceisio gostwng nifer y plant sy'n derbyn gofal, atal gwaharddiadau o'r ysgol a digartrefedd) gyda chyd-fodel fframwaith a chyd-factorau risg neu drothwyon ymyrraeth i wella canlyniadau ar gyfer plant.</li> <li>Datblygu dull effeithiol ar gyfer monitro gweithgarwch atal er mwyn dangos yr effaith ac er mwyn symleiddio'r broses o adrodd i Lywodraeth Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau, lle bo hynny'n bosibl.</li> </ul> <p><b>Dargyfeirio cyn mynd i'r llys:</b> Mae'r modelau a'r ymarfer presennol o ran dargyfeirio cyn mynd i'r llys yn gryfder, a dylid parhau i'w cefnogi a'u hariannu yn sgil eu heffaith profedig ar ostwng nifer y bobl ifanc sy'n dechrau yn y system am y tro cyntaf. Byddwn yn archwilio opsiynau ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu arferion dargyfeirio ymhellach, yn ogystal â dull mwy cydgysylltiedig er mwyn sefydlu ymarfer cyson ar sail hawliau ledled Cymru, gan gynnwys hysbysiadau rhwng yr heddlu a thimau troseddau ieuencid pan roddir atebion cymunedol.</li> </ul> <p><b>Cymuned:</b> Gall plant sydd yn y system brofi anghenion cymhleth, gan gynnwys cefndir o drawma emosiynol a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Byddwn yn ystyried opsiynau ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyflwyno dull sy'n seiliedig ar drawma yng Nghymru, sy'n cael ei ymgorffori mewn ymarfer systematig, gan ddechrau trwy amlygu profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac ymateb iddynt pan fydd plant yn dod i sylw'r heddlu am y tro cyntaf.</li> <li>Datblygu'r dull Rheoli Achosion Uwch yn genedlaethol ar gyfer achosion cymhleth, risg uchel, sef dull aml-asiantaeth a arweinir gan seicoleg, sy'n caniatáu teilwra a dilyniannu ymyriadau effeithiol, gan gydnabod trawma a digwyddiadau niweidiol y mae plant wedi'u profi.</li> <li>Alinio â Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, i helpu plant sydd wedi dioddef trwy brofi cam-drin domestig neu drais rhywiol, neu fod yn dyst iddo yn eu cartrefi, a lleihau'r risg o gyflawni troseddau o'r fath.</li> <li>Cynorthwyo'r sector cyfiawnder troseddol trwy roi adnoddau, hyfforddiant a chymwysterau i wella sgiliau ymarferwyr o ran adnabod trawma ac ymateb iddo.</li> </ul> <p><b>Y ddalffa:</b> Ceir pryderon hirsefydlog ynghylch lleoli plant o Gymru ymhell o ardal eu cartrefi. Byddwn yn archwilio opsiynau ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gosod pob plentyn sy'n byw yng Nghymru mewn lleoliad diogel yng Nghymru ac yn agos at eu cymunedau cartref. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau dwy ffordd gyda Lloegr, fel bod modd rhoi trefniadau trawsffiniol ar waith ar gyfer achosion unigol ac eithriadol.</li> <li>Darpariaeth ddiogel wedi'i llywio gan drawma, sy'n manteisio ar arfer gorau gwaith aml-asiantaeth i ddatblygu canolfan ragoriaeth sy'n cyflenwi hyfforddiant ac addysg o ran gofal iechyd ac iechyd meddwl.</li> </ul> <p><b>Ailsefydlu a phontio:</b> Mae ailsefydlu fwyaf effeithiol pan wneir gwaith cydweithredol, aml-ddisgyblaethol rhwng asiantaethau sy'n darparu cymorth yn y ddalffa ac yn y gymuned. Byddwn yn ystyried sut gellir:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mabwysiadu dull 'Ailsefydlu Adeiladol' i sicrhau bod gwaith gyda phlant yn adeiladol, yn cael ei gyd-greu, ei addasu, yn gyson ac yn gydgysylltiedig.</li> <li>Ehangu ymarfer ailsefydlu i gwmpasu gwaith gyda theuluoedd i baratoi amgylchedd y cartref ar gyfer pan fydd y plentyn yn dychwelyd; gwella ailintgreiddio.</li> <li>Cryfhau ymatebion aml-asiantaeth i ailintgreiddio ac ailsefydlu ymhellach.</li> <li>Gwella'r trefniadau pontio i wasanaethau cyfiawnder troseddol oedolion, a gwasanaethau eraill i oedolion fel iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.</li> </ul> <p><b>Goruchwyllo'r system:</b> Mae angen trefniadau partneriaeth a goruchwyllo trylwyr er mwyn cyflenwi gwasanaethau cyfiawnder ieuencid yn effeithiol. Byddwn yn archwilio opsiynau ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dull cenedlaethol wedi'i llywio gan drawma ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cyfiawnder ieuencid yng Nghymru. Bydd hyn yn galw am drefniadau partneriaeth parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a'r Llywodraeth DU i'w galluogi i ymarfer y swyddogaethau priodol yn gydgysylltiedig er mwyn cyflenwi'r Glasbrint ac ymgorffori systemau a threfniadau newydd..</li> <li>Trefniadau partneriaeth cryfach rhwng Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru, Gwasanaeth y Ddalffa Ieuencid a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid i'w galluogi i ymarfer y swyddogaethau priodol yn gydgysylltiedig er mwyn cyflenwi'r Glasbrint ac ymgorffori systemau a threfniadau newydd.</li> </ul>	<p>Mae'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuencid Cymru yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer cyfiawnder ieuencid yng Nghymru. Bydd yn:</p> <p>Defnyddio dull 'plant yn gyntaf' gyda chyfiawnder ieuencid, gan sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar blant yn hytrach na'r gwasanaeth, gan sicrhau ei fod yn bodloni anghenion unigol plant ac yn ymateb i'w buddion gorau.</p> <p>Defnyddio dull wedi'i llywio gan drawma trwy gydol camau amrywiol y system cyfiawnder troseddol, o atal ac ymyrraeth gynnar i ailsefydlu ar ôl y ddalffa, gan gydnabod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a dangosyddion anghenion cymhleth, ac ymateb iddynt.</p> <p>Ymgorffori dulliau wedi'u llywio gan drawma mewn ymarfer yn y gymuned ac yn y ddalffa, er mwyn sbarduno newid diwyllianol a systemig a chyflenwi dulliau cyson o fodloni anghenion plant.</p> <p>Alinio gwasanaethau datganoledig a heb eu datganoli trwy rannu gweledigaeth, gwerthoedd a dull fydd yn sail i ddylunio a chyflenwi gwasanaethau.</p>

Sut beth yw llwyddo?		
<p>Cafwyd gostyngiadau sylweddol o ran y rhai sy'n dechrau yn y system cyfiawnder ieuencid am y tro cyntaf, a phoblogaethau yn y ddalffa. Mae'r Glasbrint yn ychwanegu at y llwyddiant hwn. Y nod yw gwella canlyniadau troseddol a chymdeithasol i blant sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuencid a'u helpu i ddatblygu eu gwydnwch a chyflawni eu potensial. Mae'n cyd-fynd ag egwyddorion ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 trwy addasu gwasanaethau i wella canlyniadau i blant, eu teuluoedd, dioddefwyr a'r</p>	<p>gymuned ehangach. Bydd cydnabod effaith trawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar blant ac ymateb iddo mewn modd priodol, yn arwain at ymatebion mwy effeithiol, yn lleihau'r tebygolrwydd o barhau profiadau niweidiol yn y cenedlaethau dilynol ac ymddygiad troseddol rhyng-ghenedlaeth.</p> <p>Bwriad y dull system gyfan hwn yw sicrhau bod plant sydd yn y system cyfiawnder troseddol, neu sydd mewn perygl o hynny, yn cael mynediad i wasanaethau sy'n gweithredu er eu lles</p>	<p>nhw, nad ydynt yn gwahaniaethu, sy'n eu hannog i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyh nhw ac sy'n sicrhau eu bod yn cael arddel eu hawliau. Mae'r Glasbrint yn nodi ymrwymiad ar gyfer gwireddu sut gall gwasanaethau datganoledig a heb eu datganoli weithio gyda'i gilydd i arddel hawliau plant a datblygu system cyfiawnder ieuencid yng Nghymru sy'n seiliedig ar egwyddorion yn ymwneud â hawliau.</p>